# Taliadau Anghyfreithlon a Methiannau o ran Llywodraethu – Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd

Blwyddyn archwilio: 2014-15

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2616A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English

# Cynnwys

Gan weithredu o dan drefniadau dirprwyedig ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, i dynnu sylw'r cyhoedd at fethiannau sylweddol o ran gwneud penderfyniadau a diffygion mewn rheolaeth ariannol a thaliadau anghyfreithlon a wnaed yng Nghyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi nifer o ddiffygion o ran llywodraethu a rheolaeth ariannol y Cyngor ac yn nodi bod y Cyngor wedi gwneud taliadau anghyfreithlon o arian rhodd i ddau aelod o staff.

Mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried yr adroddiad a'r argymhellion a wnaed, yn unol ag adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.


Adroddiad cryno

Cyflwyniad 5

Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd 5

Gwaith archwilio a wnaed 6

Canfyddiadau allweddol 6

Argymhellion a'r camau nesaf 7

Adroddiad manwl

Gwnaeth y Cyngor daliadau arian rhodd anghyfreithlon i Glerc ac Ysgrifenyddes y Cyngor pan ddaeth cyfnod eu cyflogaeth i ben ym mis Hydref 2014 a chymerodd y Clerc ran yn y broses o wneud penderfyniadau ac yntau wedi'i anghymwyso rhag gwneud hynny 9

Cafodd y Clerc a'r Ysgrifenyddes daliadau cyflog yn fwy na'r symiau y cytunwyd arnynt yn ffurfiol gan y Cyngor ac ychwanegodd y Clerc fwy o atchwanegiadau anawdurdodedig at ei gyflog 27

Methodd y Cyngor â chydymffurfio â rheolau sefydlog ei gontract wrth brynu nwyddau a gwasanaethau, ac o ganlyniad ni all ddangos ei fod wedi cyflawni gwerth am arian 36

Roedd rheolaeth y Cyngor dros ei faterion ariannol yn ddiffygiol ac nid oedd yn bodloni gofynion deddfwriaethol 38

Methodd y Cyngor â chyflawni ei ddyletswydd ddeddfwriaethol i sefydlu a chynnal archwiliad mewnol digonol ac effeithiol 41

Roedd trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn ddiffygiol ar sawl cyfrif sylweddol 45

Atodiadau

Atodiad 1– Canfyddiadau’r Archwiliad Mewnol o ran cyfrifon 2014-15 y Cyngor o’u cymharu â chanfyddiadau’r Archwilydd Cyffredinol ynghylch yr un materion 47

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghasgliadau sy'n deillio o fy archwiliad o gyfrifon Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd (y Cyngor) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014-15.

2 Mae'r adroddiad hwn yn adroddiad ar unwaith a gyhoeddwyd er budd y cyhoedd o dan Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf). Rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn i dynnu sylw'r cyhoedd at fethiannau'r Cyngor o ran gwneud penderfyniadau a diffygion o ran rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol. O ystyried natur y materion a nodais, credaf ei bod yn bwysig bod gan y cyhoedd ymwybyddiaeth lawn a phriodol o'r digwyddiadau sy'n ymwneud â'r Cyngor.

3 Rwyf hefyd o'r farn ei bod yn briodol rhoi cyfle i'r Cyngor ddangos y camau pwysig a gymerwyd eisoes i wella trefniadau a sicrhau bod y risg o fethiannau o'r fath yn cyrraedd y lefel leiaf posibl. Wrth baratoi'r adroddiad hwn, rwyf wedi rhoi cyfleoedd i'r rhai y gellir eu hadnabod yn yr adroddiad ac i'r Cyngor cyfan roi sylwadau ar ganfyddiadau fy archwiliad. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu sylwadau a gafwyd gan y partïon hyn.

4 Nodaf fod gwersi i'w dysgu nid yn unig gan y Cyngor hwn, ond gan bob cyngor cymuned yng Nghymru.

## Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd

5 Mae'r Cyngor wedi'i leoli ym Mlaenau Gwent ac mae'n gwasanaethu cymunedau Abertyleri a Llanhiledd. Mae'r Cyngor yn gorff statudol a sefydlwyd o dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac mae'n darparu nifer cyfyngedig o wasanaethau a chyfleusterau lleol.

6 Yn ystod 2014-15, y cyfnod cyfrifyddu y mae'r ddogfen hon yn ymwneud ag ef, roedd gan y Cyngor 19 o gynghorwyr a etholwyd yn ddemocrataidd gan etholwyr cofrestredig Abertyleri a Llanhiledd. Ni thalwyd y Cynghorwyr am ymgymryd â'r swyddogaeth hon. Yn ystod 2014-15, gwariodd y Cyngor £142,175. Mae hyn yn cynnwys £84,651 o wariant sy'n gysylltiedig â staff, a thalwyd £19,522.18 ohono (cyn tynnu treth) i Glerc y Cyngor a thalwyd £23,858.64 ohono (cyn tynnu treth) i Ysgrifenyddes y Cyngor ar ffurf taliadau arian rhodd untro pan ddaeth cyfnod eu cyflogaeth i ben. Gwariwyd y rhan fwyaf o weddill gwariant y Cyngor drwy roi rhoddion i grwpiau ac achosion cymunedol lleol.

7 Ariannwyd y gwariant yn bennaf drwy wneud praesept (gorchymyn i gasglu arian) yn erbyn Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (CBSBG). Roedd CBSBG yn ei dro yn cynnwys swm y praesept o fewn biliau Treth y Cyngor trigolion Abertyleri a Llanhiledd. Felly, talwyd am wariant y Cyngor yn bennaf gan drigolion lleol drwy'r Dreth Gyngor.

8 Mae cynghorau cymuned fel Abertyleri a Llanhiledd yn gyrff cyhoeddus bach iawn ac fel arfer maent yn dibynnu ar un swyddog allweddol, y Clerc, i reoli eu materion

gweinyddol. Yn amlach na pheidio, penodir y Clerc hefyd yn Swyddog Cyllid Cyfrifol (RFO). Mae'r RFO yn gyfrifol am weinyddu materion ariannol y Cyngor o ddydd i ddydd. Mae hyn fel arfer yn cynnwys cael a chofnodi incwm, paratoi taliadau â siec i'w llofnodi gan aelodau, gweinyddu taliadau'r gyflogres, cynnal cofnodion cyfrifyddu'r Cyngor a pharatoi cyfrifon blynyddol. Yn ystod 2014-15, Clerc y Cyngor oedd Mr Graham Bartlett.

9 Er bod swyddogaeth y Clerc/RFO, yn bodoli, yn ôl y gyfraith (Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (Rheoliadau 2014)), cyfrifoldeb y Cyngor (hynny yw yr aelodau) yw gwarchod arian y Cyngor, gan gynnwys sicrhau bod ganddo reolaeth ariannol effeithiol ac effeithlon. Mae hyn yn cynnwys pethau megis sefydlu system briodol o reolaeth fewnol, gan gynnwys archwilio mewnol, a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu blynyddol cyn eu cyflwyno i'r archwilydd allanol i gael eu harchwilio.

# Gwaith archwilio a wnaed

10 Yn unol â'r ddeddfwriaeth archwilio a oedd ar waith yn ystod blwyddyn ariannol 2014-15, penododd Archwilydd Cyffredinol Cymru (Yr Archwilydd Cyffredinol) gwmni archwilio Mazars i gynnal archwiliad allanol statudol o gyfrifon 2014-15 y Cyngor. Yn ystod 2015, cafodd yr Archwilydd Cyffredinol ohebiaeth gan aelodau o'r cyhoedd a rhai aelodau o'r Cyngor a oedd yn codi pryderon ynghylch y taliadau terfynu y cyfeirir atynt ym **mharagraff 6**, a llywodraethu cyffredinol y Cyngor. O ystyried difrifoldeb y pryderon a godwyd, penderfynodd yr Archwilydd Cyffredinol y dylai'r archwiliad o gyfrifon 2014-15 y Cyngor gael ei gwblhau gan archwilwyr a gyflogir gan Swyddfa Archwilio Cymru.[1]

11 Yn dilyn ymholiadau archwilio cychwynnol, deuthum i'r casgliad fod angen dwyn rhai materion i sylw swyddogion Heddlu Gwent er mwyn iddynt ystyried a oedd tystiolaeth bod trosedd wedi'i chyflawni. Cynhaliodd Heddlu Gwent ei ymchwiliad hir ei hun i'r materion hyn, ac ar ôl gofyn am gyngor, daeth i'r casgliad na fyddai er budd y cyhoedd i geisio bwrw ymlaen ag erlyniad. Nid oeddwn yn gallu symud ymlaen a chwblhau fy archwiliad nes bod Heddlu Gwent wedi cwblhau ei ymchwiliad.

# Canfyddiadau allweddol

12 Canfu fy ngwaith archwilio y canlynol:

- yn ystod 2014-15, gwariodd y Cyngor £84,651 ar wariant yn gysylltiedig â staff. Mae hyn yn cynnwys £19,522.18 (cyn tynnu treth) a dalwyd i Glerc y Cyngor a £23,858.64 (cyn tynnu treth) a dalwyd i Ysgrifenyddes y Cyngor ar ffurf taliadau arian rhodd untro pan ddaeth cyfnod eu cyflogaeth i ben ym

[1] Pan weithredwyd Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 yn llawn, daeth yr Archwilydd Cyffredinol yn archwilydd statudol pob awdurdod lleol yng Nghymru.

mis Hydref 2014. Gwariwyd y rhan fwyaf o weddill gwariant y Cyngor drwy roi rhoddion i grwpiau ac achosion cymunedol lleol. Cymerodd y Clerc ran yn y broses o wneud penderfyniadau ac yntau wedi'i anghymhwyso rhag gwneud hynny. Yn fy marn i, roedd talu'r arian rhodd yn anghyfreithlon.

- cafodd y Clerc a'r Ysgrifenyddes daliadau cyflog yn fwy na'r symiau y cytunwyd arnynt yn ffurfiol gan y Cyngor ac ychwanegodd y Clerc fwy o atchwanegiadau anawdurdodedig at ei gyflog.
- methodd y Cyngor â chydymffurfio â rheolau sefydlog ei gontract wrth brynu nwyddau a gwasanaethau, ac o ganlyniad ni all ddangos ei fod yn cyflawni gwerth am arian.
- roedd rheolaeth y Cyngor dros ei faterion ariannol yn annigonol ac nid oedd yn bodloni gofynion deddfwriaethol.
- methodd y Cyngor â chyflawni ei ddyletswydd ddeddfwriaethol i sefydlu a chynnal archwiliad mewnol digonol ac effeithiol.
- Roedd trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn ddiffygiol mewn sawl ffordd sylweddol.

# Argymhellion a'r camau nesaf

13 Digwyddodd y materion a nodwyd yn yr adroddiad hwn sawl blwyddyn yn ôl. Gan fod y broses archwilio o reidrwydd yn hirfaith yn sgil ymchwiliad hir yr heddlu, fe wnaeth fy nhîm archwilio annerch y Cyngor mewn cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2015 ac rwy'n fodlon bod y Cyngor, ers hynny, wedi gwneud cryn ymdrech i wella ei drefniadau llywodraethu a rheoli ariannol. Mae'r Cyngor wedi penodi swyddogion newydd ac nid yw llawer o aelodau'r Cyngor a fu'n rhan o'r cyngor yn ystod 2014-15 bellach yn eu swyddi.

14 O ganlyniad, er fy mod yn bwriadu parhau i fonitro'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor i wella ei drefniadau, dim ond un argymhelliad a wnaf yn yr adroddiad hwn.

## Argymhelliad

| **Argymhelliad** | |
|---|---|
| A1 | Dylai'r Cyngor ystyried a ddylid ceisio adennill y gordaliadau anghyfreithlon a wnaed i gyn-Glerc y Cyngor a'r cyn-Ysgrifenyddes y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn. |

15 Wrth wneud yr argymhelliad hwn, hoffwn bwysleisio nad wyf wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod Ysgrifenyddes y Cyngor wedi gweithredu'n anonest. Credaf fod y gordaliadau i Ysgrifenyddes y Cyngor yn ganlyniad i gamgymeriad y Cyngor, a bod ganddi sail resymol dros gredu bod ganddi hawl i'r symiau a gafodd.

## Y camau nesaf

16 Mae adrannau 25 i 27 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi'r camau y mae angen i'r Cyngor eu cymryd nawr mewn ymateb i'r adroddiad hwn.

17 I grynhoi, rhaid i'r Cyngor nawr ystyried yr adroddiad a'i argymhellion mewn cyfarfod cyhoeddus o'r Cyngor o fewn mis i'r dyddiad y cyhoeddaf yr adroddiad.

18 Cyn y cyfarfod, mae'n rhaid i'r Cyngor hysbysebu'r cyfarfod drwy roi hysbysiad mewn papur newydd lleol. Mae'n rhaid i'r hysbysiad hwn nodi dyddiad ac amser y cyfarfod a sut y gall aelodau o'r cyhoedd fod yn bresennol.

19 Yn y cyfarfod, bydd angen i'r Cyngor benderfynu:

- a yw'r adroddiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd unrhyw gamau;
- a yw'r argymhellion yn yr adroddiad i gael eu derbyn; a
- pha gamau (os o gwbl) i'w cymryd mewn ymateb i'r adroddiad a'r argymhellion.

20 Yna bydd angen i'r Cyngor baratoi ymateb ysgrifenedig a chytuno ar eiriad yr ymateb hwnnw gyda mi cyn cyhoeddi ei ymateb mewn papur newydd lleol.

Ann-Marie Harkin

Cyfarwyddwr Gweithredol (Gwasanaethau Archwilio)

Hydref 2021

# Adroddiad manwl

## Gwnaeth y Cyngor daliadau arian rhodd anghyfreithlon i Glerc ac Ysgrifenyddes y Cyngor pan ddaeth cyfnod eu cyflogaeth i ben ym mis Hydref 2014 a chymerodd y Clerc ran yn y broses o wneud penderfyniadau ac yntau wedi'i anghymwyso rhag gwneud hynny

### Roedd gan gynghorau cymuned bŵer cyfreithiol i wneud taliadau arian rhodd i swyddogion ar ddiwedd cyflogaeth ar yr amod bod gan y swyddogion hynny hawl gytundebol cyn 16 Ionawr 2012 i gael taliad o'r fath

21 Ym mis Hydref 2014, gwnaeth y Cyngor daliadau o £19,522.18 i Glerc y Cyngor, Mr Bartlett a £23,858.64 i Ysgrifenyddes y Cyngor pan oeddent yn ymddeol fel swyddogion y Cyngor. Yn dilyn hynny, cysylltodd aelodau o'r cyhoedd â'r Archwilydd Cyffredinol ynghylch cyfreithlondeb y taliadau hyn. Mae'r taliadau a wneir yn fy marn i yn daliadau arian rhodd.

22 Mae taliadau arian rhodd yn ôl eu natur, yn daliadau yn ôl disgresiwn. Hyd at 16 Ionawr 2012, roedd gan gynghorau lleol y pŵer i wneud taliadau arian rhodd i staff pan ddaeth cyfnod cyflogaeth i ben (hyd at derfynau statudol a bennir mewn rheoliadau). Fodd bynnag, nid oedd pŵer cynghorau lleol i wneud taliadau arian rhodd yn creu unrhyw ddyletswydd na rhwymedigaeth i wneud hynny, ac nid oedd ychwaith yn creu unrhyw hawl cytundebol i aelodau staff gael taliad.

23 Penderfynodd llawer o gynghorau lleol gynnwys hawl staff i gael arian rhodd o fewn eu contractau cyflogaeth. Nid oedd cynnwys cymal o'r fath yn galluogi cynghorau i dalu mwy o arian na'r uchafswm a nodir mewn deddfwriaeth. O 16 Ionawr 2012 ymlaen, diddymwyd Rheoliadau Llywodraeth Leol (Taliadau yn ôl Disgresiwn) 1996, sy'n golygu nad oedd gan gynghorau lleol, o'r pwynt hwnnw, unrhyw bŵer cyfreithiol i wneud taliadau arian rhodd i aelodau staff pan ddaeth eu cyflogaeth i ben, oni bai bod gan aelodau staff gymal cytundebol yn eu contract cyflogaeth a wnaed cyn dyddiad diddymu'r Rheoliadau gan roi hawl iddynt gael taliad arian rhodd. I'r rhai hynny â hawl cytundebol, roedd y swm y gellid ei dalu'n gyfreithlon fel rhodd yn amodol ar yr uchafswm a bennwyd yn y Rheoliadau a oedd mewn grym ar yr adeg yr ymrwymwyd i'r contract.

## Roedd y broses a arweiniodd at Glerc y Cyngor yn cael taliad arian rhodd yn sylfaenol ddiffygiol, cymerodd ran yn y broses o wneud penderfyniadau pan oedd wedi ei anghymhwyso rhag gwneud hynny a chafodd £14,990 yn fwy na'r uchafswm statudol y gallai fod wedi'i dalu'n gyfreithlon pe bai ganddo hawl gontractiol i gael arian rhodd

### Nid oedd gan Glerc y Cyngor hawl gontractiol ysgrifenedig i gael taliad arian rhodd ar adeg ei ymddeoliad o'r Cyngor

24 Ymddeolodd rhagflaenydd Mr Bartlett o'i swydd yn Glerc ym 1989. Roedd contract cyflogaeth rhagflaenydd Mr Bartlett yn cynnwys hawl benodol i gael arian rhodd ar ddiwedd ei gyflogaeth. Pan adawodd gyflogaeth y Cyngor, cafodd daliad arian rhodd o £1,000 o gyfrif banc a oedd wedi'i sefydlu er mwyn talu arian rhodd.

25 Penodwyd Mr Bartlett yn Glerc y Cyngor ar 25 Hydref 1989. Ar 20 Rhagfyr 1989, ymrwymodd y Cyngor i gontract cyflogaeth gyda Mr Bartlett. Nid oedd y contract cyflogaeth yn cynnwys unrhyw hawl i Mr Bartlett gael taliad arian rhodd ar ddiwedd ei gyflogaeth.

26 Dywedodd Mr Bartlett wrth fy archwilwyr ei fod, tua adeg ei benodi, wedi mynd i gyfarfod o'r Cyngor. Mae'n honni, yn dilyn y cyfarfod hwnnw, fod Cadeirydd y Cyngor ar y pryd a Chadeirydd Pwyllgor Cyllid y Cyngor ar y pryd wedi dweud wrtho am dalu £500 y flwyddyn i gyfrif banc arian rhodd. Mae Mr Bartlett yn honni iddo ddilyn y cyfarwyddyd hwn drwy drosglwyddo £500 y flwyddyn o arian y Cyngor i gyfrif banc arian rhodd rhwng 1989 a 2005. Mae Mr Bartlett yn honni hefyd y gall tri chynghorydd o'r adeg honno gadarnhau y cytunwyd y dylai gael arian rhodd ar ddiwedd ei gyflogaeth.

27 Er fy mod yn nodi honiadau Mr Bartlett, nid yw cofnodion cyfarfodydd y Cyngor a gynhaliwyd ym 1989 yn cofnodi bod y Cyngor wedi cytuno bod ganddo hawl i gael arian rhodd ac nad yw ei gontract cyflogaeth yn nodi unrhyw hawl iddo gael arian rhodd. Hefyd, er bod Mr Bartlett yn honni, ar ôl i'r Cyngor gytuno, ei fod wedi talu £500 y flwyddyn i'r cyfrif banc arian rhodd bob blwyddyn rhwng 1989 a 2005, mae cofnod ariannol y Cyngor yn dangos na wnaed unrhyw daliadau i gyfrif banc arian rhodd y Cyngor tan fis Rhagfyr 1992.

28 Ar 15 Ionawr 1992, mae cofnodion cyfarfod o Bwyllgor Cyllid a Threfniadaeth y Cyngor yn cofnodi bod Mr Bartlett wedi hysbysu'r cyfarfod ei bod yn bosibl y gallai deddfwriaeth newid, a gallai hyn olygu ei fod yn gymwys i gael taliad arian rhodd. Argymhellodd 'y dylai'r Cyngor Cymuned fod yn barod ar gyfer unrhyw sefyllfa a allai godi ac argymhellodd y dylid rhoi'r arian hwn o'r neilltu'. Yn fy marn i, mae'r cofnod hwn yn dangos, ar 15 Ionawr 1992, fod Mr Bartlett yn deall nad oedd yn gymwys i gael arian rhodd ar ddiwedd ei gyflogaeth. Am y rheswm hwn, nid wyf

wedi ystyried bod angen cyfweld â'r cyn-gynghorwyr y cyfeiriwyd atynt gan Mr Bartlett ym **mharagraff 26**.

29 Ym mis Rhagfyr 1992, gwnaeth y Cyngor daliad cyntaf o £750 i'r cyfrif banc arian rhodd. Gwnaed taliadau eraill i'r cyfrif yn ystod cyfnod cyflogaeth Mr Bartlett. Cyfanswm y swm a dalwyd i'r cyfrif oedd £14,502 fel y nodir yn **Arddangosyn 1**.

**Arddangosyn 1 – symiau a dalwyd i gyfrif banc cronfa arian rhodd y Cyngor yn y blynyddoedd ariannol rhwng 1989-90 a 2014-15**

O 1989 tan 2014, talodd y Cyngor £14,502 i gyfrif banc cronfa arian rhodd.

| Blwyddyn ariannol | Swm a dalwyd i gyfrif banc cronfa arian rhodd | | Blwyddyn Ariannol | Swm a dalwyd i gyfrif banc cronfa arian rhodd |
|---|---|---|---|---|
| | £ | | | £ |
| 1989-90 | 0 | | 2003-04 | 500 |
| 1990-91 | 0 | | 2004-05 | 500 |
| 1991-92 | 0 | | 2005-06 | 800 |
| 1992-93 | 750 | | 2006-07 | 802 |
| 1993-94 | 750 | | 2007-08 | 800 |
| 1994-95 | 750 | | 2008-09 | 850 |
| 1995-96 | 750 | | 2009-10 | 850 |
| 1996-97 | 0 | | 2010-11 | 0 |

| Blwyddyn ariannol | Swm a dalwyd i gyfrif banc cronfa arian rhodd | | Blwyddyn Ariannol | Swm a dalwyd i gyfrif banc cronfa arian rhodd |
|---|---|---|---|---|
| 1997-98 | 500 | | 2011-12 | 1,700 |
| 1998-99 | 500 | | 2012-13 | 850 |
| 1999-2000 | 500 | | 2013-14 | 850 |
| 2000-01 | 500 | | 2014-15 | 0 |
| 2001-02 | 500 | | **Cyfanswm** | **14,502** |
| 2002-03 | 500 | | | |

Ffynhonnell: Datganiadau banc y Cyngor

30 Ar 19 Mawrth 2001, ymrwymodd y Cyngor i gytundeb contractiol newydd gyda Mr Bartlett. Disodlwyd contract 1989 Mr Bartlett yn ei gyfanrwydd gan gontract 2001. Nid yw contract 2001 yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n caniatáu i Mr Bartlett gael arian rhodd.

31 Ym mis Gorffennaf 2014, anfonodd Mr Bartlett gopi o'r hyn a ddywedodd oedd ei gontract cyflogaeth presennol at Mazars. Roedd y contract hwn wedi'i ddyddio 2 Ionawr 2005 ac mae'n seiliedig ar gontract cyflogaeth enghreifftiol y cytunwyd arno rhwng Cymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol (CGCLl), Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC) ac a fabwysiadwyd gan Un Llais Cymru. Disodlwyd contract Mr Bartlett yn 2001 gan y contract hwn.

32 Roedd y contract dyddiedig 2 Ionawr 2005 yn cynnwys y cymal contract canlynol a oedd yn rhoi'r ddarpariaeth i'r Cyngor naill ai gofrestru Mr Bartlett yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu y caiff wneud darpariaeth i dalu arian rhodd yn unol â'r Rheoliadau mewn grym ar yr adeg berthnasol.

> ‘19.1 Pensiwn
>
> Mae’r Cyngor yn aelod o’r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, sy’n gweithredu cynllun pensiwn cyfrannol, y mae gennych hawl i ymuno ag ef. Mae manylion yn y llyfryn a ddarperir ar wahân. Dileu os oes angen
>
> Neu
>
> 19.2 Arian Rhodd
>
> Caiff y Cyngor wneud darpariaeth briodol ar gyfer talu arian rhodd yn unol â’r Rheoliadau mewn grym ar yr adeg berthnasol.’

33 Nid yw’r ddogfen gontract wedi’i hanodi i ddangos pa un o’r ddau opsiwn hyn a ddewiswyd, fodd bynnag, sylwaf nad oedd Mr Bartlett wedi’i gofrestru yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Nid yw’r contract yn rhoi hawl gytundebol i Mr Bartlett gael arian rhodd, mae’n nodi y gall y Cyngor ‘wneud darpariaeth briodol’ i dalu arian rhodd. Nid yw’n nodi swm sydd i’w dalu i Mr Bartlett. Nid yw’n nodi y byddai unrhyw daliad yn unol â’r Rheoliadau ar waith ar y pryd.

34 Ar 6 Mai 2015, cyflwynodd Cadeirydd y Cyngor ar y pryd becyn o ddogfennau i safle Swyddfa Archwilio Cymru. Roedd y pecyn o ddogfennau yn cynnwys fersiwn arall o gontract cyflogaeth Mr Bartlett dyddiedig 2 Medi 2005. Mae’r ddogfen hon yn gontract cyflogaeth enghreifftiol y cytunwyd arno rhwng CGCLl, SLCC ac a fabwysiadwyd gan Un Llais Cymru. Nid wyf yn glir pam y gwnaeth y Cyngor gontract newydd gyda Mr Bartlett wyth mis ar ôl y contract y cyfeirir ato ym **mharagraffau 31 a 32**, gan nad oedd y telerau wedi newid.

35 Yn ystod yr archwiliad, canfu’r Cyngor gontract cyflogaeth arall rhwng y Cyngor a Mr Bartlett dyddiedig 15 Mehefin 2007. Mae’r contract hwn yn gontract cyflogaeth enghreifftiol y cytunwyd arno rhwng CGCLl, SLCC ac a fabwysiadwyd gan Un Llais Cymru. Mae telerau’r contract yn union yr un fath â’r rhai a gynhwysir yng nghontractau 2005. Yn fy marn i, nid oes yr un o’r contractau hyn yn rhoi hawl gytundebol i Mr Bartlett gael taliad arian rhodd.

36 Rwy’n cydnabod y gellid dehongli gweithredoedd y Cyngor wrth wneud taliadau i gyfrif banc arian rhoddion fel rhai sy’n creu’r disgwyliad y byddai’r Cyngor yn gwneud taliad i Mr Bartlett ar ddiwedd ei gyflogaeth. Fodd bynnag, nodaf y canlynol hefyd:

- dechreuodd taliadau i’r cyfrif banc arian rhodd ym 1992 ar gais Mr Bartlett, ar y sail y gallai, ar ryw adeg yn y dyfodol, fod â hawl i gael taliad rhodd **(paragraff 29**).
- Nid yw contractau cyflogaeth Mr Bartlett ym 1989, 2001, 2005 a 2007 yn nodi unrhyw hawl gontractiol iddo gael taliad arian rhodd. Mae contractau 2005 a 2012 yn darparu ar gyfer y posibilrwydd y bydd y Cyngor yn gwneud taliad yn ôl disgresiwn i Mr Bartlett ar ddiwedd ei gyflogaeth o swm amhenodol ac yn amodol ar Reoliadau mewn grym ar yr adeg berthnasol.

37 Felly, nid wyf wedi gallu bodloni fy hun bod gan Mr Bartlett unrhyw hawl gontractiol i gael taliad arian rhodd o £19,522.18 ar ddiwedd ei gyflogaeth.

## Cafodd Clerc y Cyngor daliad arian rhodd o £19,522.18, a oedd £14,989.78 yn uwch na'r uchafswm arian rhodd a ganiateir o dan ddeddfwriaeth

38 Fel y nodwyd uchod, nid oedd contractau cyflogaeth Mr Bartlett yn nodi hawl iddo gael taliad arian rhodd adeg ei ymddeoliad o'r Cyngor ar 31 Hydref 2014. Roedd diddymu Rheoliadau yn 2012 a oedd yn rhoi pŵer i gynghorau lleol wneud taliadau arian rhodd yn golygu na allai cynghorau lleol ond gwneud taliadau arian rhodd i aelod o staff os oedd gan yr aelod hwnnw hawl gontractiol cyn diddymu'r Rheoliadau.

39 Sylwaf fod contractau cyflogaeth Mr Bartlett a wnaed yn 2005 a 2007 yn nodi y gall y Cyngor 'wneud darpariaeth briodol ar gyfer talu arian rhodd' a derbyniaf y gallai Mr Bartlett fod wedi cymryd bod hyn yn golygu bod ganddo hawl gontractiol i gael taliad arian rhodd ar ddiwedd ei gyflogaeth gyda'r Cyngor. Nid wyf yn derbyn y farn hon. Nid yw'r cymal contractiol yn nodi unrhyw swm neu fath o gyfrifiad i benderfynu beth y byddai Mr Bartlett yn ei gael, h.y. byddai unrhyw daliad yn gyfan gwbl yn ôl disgresiwn y Cyngor. Hefyd, nodaf fod y teler contractiol yn nodi ymhellach y byddai'n rhaid i unrhyw daliad arian rhodd fod 'yn unol â'r Rheoliadau mewn grym ar yr adeg berthnasol'.

40 Llywodraethwyd swm unrhyw arian y gellid ei dalu i Mr Bartlett o dan gontract a wnaed yn 2005 neu 2007 gan Reoliadau Llywodraeth Leol (Taliadau yn ôl Disgresiwn) 1996 (y Rheoliadau). Dyma'r Rheoliadau 'mewn grym ar yr adeg berthnasol'. Mae'r Rheoliadau'n pennu uchafswm ar gyfer taliad yn ôl disgresiwn y gall cyngor ei dalu'n gyfreithlon i gyflogai pan ddaw ei gyflogaeth i ben ac yn nodi cyfrifiadau ar gyfer penderfynu ar yr uchafswm rhagnodedig.

41 Yr uchafswm y gellid ei dalu o dan y Rheoliadau yn achos Mr Bartlett oedd y lleiaf o'r ddau swm canlynol:

- 3.75% o'r cyflog ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth rhwng 16 a 70 oed; neu
- 3.75% o'r terfyn enillion is Yswiriant Gwladol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth rhwng 16 a 70 oed.

42 Gan fod cyflog Mr Bartlett yn sylweddol uwch na'r terfyn enillion is Yswiriant Gwladol, dylai unrhyw gyfrifiad o'r uchafswm arian y gellid ei dalu fod wedi'i seilio ar 3.75% o'r terfyn enillion is Yswiriant Gwladol a dylai fod wedi ystyried gwasanaeth Mr Bartlett hyd at 70 oed yn unig (roedd Mr Bartlett dros 70 oed pan adawodd gyflogaeth y Cyngor). Pe bai'r Rheoliadau wedi'u defnyddio'n gywir, yr uchafswm y gallai Mr Bartlett fod wedi'i dderbyn, pe bai ganddo hawl gontractiol i gael arian rhodd, oedd £4,532.40. Fel y bu hi, talwyd £19,522.18 iddo.

43 Felly, credaf fod Mr Bartlett wedi cael £14,989.78 yn uwch na'r uchafswm arian rhodd a ganiateir o dan ddeddfwriaeth ac roedd y taliad hwn yn groes i'r gyfraith.

## Roedd y broses a arweiniodd at dalu arian rhodd i Glerc y Cyngor, ac Ysgrifenyddes y Cyngor ym mis Hydref 2014 yn sylfaenol ddiffygiol ar sawl cyfrif sylweddol

### Camarweiniodd y Clerc archwilydd penodedig y Cyngor, Mazars, ynghylch ei hawl i gael taliad arian rhodd

44 Yn 2013, dywedodd Mr Bartlett wrth archwilydd allanol y Cyngor, Mazars, ei fod yn bwriadu ymddeol.

45 Ar 7 Awst 2013, ysgrifennodd Mazars at Mr Bartlett ynghylch y cyfrif banc arian rhodd. Roedd yr e-bost yn amlinellu bod Mazars wedi nodi bodolaeth darpariaeth o gronfa arian rhodd ond bod angen sicrhau bod hon yn 'bodloni'r gofynion cywir'. Gofynnodd Mazars am gopi o gontract Mr Bartlett cyn 2012, (gan fod yr holl ddeddfwriaeth sy'n rhoi pŵer i gynghorau cymuned i wneud taliadau arian rhodd wedi'i diddymu o 16 Ionawr 2012 ac felly dim ond gweithwyr cynghorau cymuned â hawl contractiol i gael arian rhodd cyn diddymu'r ddeddfwriaeth oedd â'r hawl i gael taliad o'r fath). Gofynnodd Mazars hefyd i Mr Bartlett ddarparu copïau o unrhyw gyngor yr oedd y Cyngor wedi'i gael, er enghraifft gan Un Llais Cymru. Gofynnodd Mazars wedyn i Mr Bartlett ddarparu 'y cyfrifiadau a ddefnyddiwyd a'r gymeradwyaeth i wneud y taliad'.

46 Ymatebodd Mr Bartlett i'r e-bost ar 12 Awst 2013 gan ddatgan, 'Dechreuais weithio i'r Cyngor Cymuned ym 1989 ac fe'm cyflogwyd o dan yr un telerau ac amodau â'r Clerc blaenorol. Dywedwyd wrthyf, yn wahanol i rai Cynghorau, nad oeddent yn talu i mewn i gronfa bensiwn ond yn talu £500 y flwyddyn i Gronfa Arian Rhodd. Yn 2004 daeth Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol i gytundeb o ran telerau, amodau a chyflogau Clercod y Cyngor. Roedd y cytundeb hwn yn disodli'r holl gytundebau blaenorol ac fe'i gweithredwyd gan y Cyngor yn 2005 – (Amgaeir copi). Roedd hyn yn cynnwys taliad o 3.75% o gyflogau gros i'r gronfa arian rhodd – h.y. £850. Rhoddir copi o'r adroddiad ariannol i bob aelod ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben – i'w gymeradwyo neu fel arall – amgaeir copi perthnasol.'

47 Rwy'n ystyried bod y datganiad a roddwyd gan Mr Bartlett i Mazars yn ei hanfod yn anghywir am y rhesymau canlynol.

- Ni chynhigiwyd yr un telerau ac amodau i Mr Bartlett ag i'r clerc blaenorol. Nid oedd contract Mr Bartlett dyddiedig 20 Rhagfyr 1989 yn cynnwys unrhyw hawl i ddarparu arian rhodd tra bod contract ei ragflaenydd yn cynnwys darpariaeth o'r fath.
- ni fabwysiadodd y Cyngor lyfryn y SLCC a ddarparwyd i Mazars a gyfeiriodd at daliad o 3.75% o'r cyflog gros i gronfa arian rhodd. Mabwysiadodd y Cyngor delerau ac amodau model CGCLl, SLCC ac Un Llais Cymru nad oedd yn cyfeirio at daliad o 3.75% i gronfa arian rhodd. Mae contractau Mr Bartlett yn datgan, 'gall y Cyngor wneud darpariaeth briodol ar gyfer talu arian rhodd yn unol â'r Rheoliadau mewn grym ar yr adeg berthnasol'.

- fel y nodir ym **mharagraff 29**, ni wnaeth y Cyngor unrhyw daliadau i'r gronfa arian rhodd tan fis Rhagfyr 1992, a dim ond ar ôl i Mr Bartlett roi gwybod i'r Cyngor ym mis Ionawr 1992 y gallai deddfwriaeth newid gan olygu y byddai ganddo hawl yn y dyfodol i daliad arian rhodd.

48 Ar 19 Awst 2013, ysgrifennodd Mazars at aelodau'r Cyngor ynghylch y datganiad archwilio blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013. Dywedodd y llythyr wrth y Cyngor, ar ôl diddymu Rheoliadau Blwydd-daliadau 1996, caiff cynghorau wneud taliadau arian rhodd yn y dyfodol dim ond pan fyddant wedi'u cynnwys fel rhwymedigaeth gontractiol mewn contract cyflogaeth a wnaed cyn mis Ionawr 2012. Cynghorodd Mazars y Cyngor i ofyn am gyngor cyfreithiol cyn gwneud unrhyw daliadau arian rhodd. Ni chafodd y Cyngor unrhyw gyngor cyfreithiol ffurfiol fel y cynghorodd Mazars. Mae cofnodion cyfarfod o Bwyllgor Cyllid a Threfniadaeth y Cyngor a gynhaliwyd ar 8 Hydref 2014 yn cofnodi bod yr aelodau wedi cytuno i argymell taliadau o £19,522.18 a £23,858.64 i Mr Bartlett ac Ysgrifenyddes y Cyngor yn y drefn honno.

49 Yn dilyn hynny, cafodd yr Archwilydd Cyffredinol ohebiaeth gan aelodau o'r cyhoedd yn codi pryderon ynghylch cyfreithlondeb y taliadau 'arbedion effeithlonrwydd terfynu' a argymhellwyd i gael eu cymeradwyo gan Bwyllgor Cyllid a Threfniadaeth y Cyngor. Cyfeiriodd yr Archwilydd Cyffredinol y pryderon hyn at Mazars, yr archwilydd a benodwyd i gynnal archwiliad allanol statudol o gyfrifon 2014-15 y Cyngor.

50 Ar 23 Hydref 2014, ysgrifennodd Mazars at Mr Bartlett yn gofyn am y wybodaeth ganlynol:

- 'Natur y taliadau hyn, h.y. pam mae'r Cyngor yn gwneud y taliad a beth mae'r taliadau'n ei gynrychioli;
- cyfrifiad i gefnogi symiau'r taliadau a gynigir;
- yr awdurdod statudol y mae'r Cyngor yn dibynnu arno i wneud y taliadau hyn: a
- chopi o unrhyw gyngor cyfreithiol a phroffesiynol y mae'r Cyngor wedi'i gael i gadarnhau bod y taliadau'n gyfreithlon a bod y symiau arfaethedig yn briodol.'

51 Ddydd Llun 27 Hydref 2014, cyflwynodd Mr Bartlett ymateb i swyddfeydd Mazars yn Poole. Roedd y dogfennau a ddarparwyd yn cynnwys:

- dau lythyr gan gwmni cyfreithwyr lleol dyddiedig 24 Hydref 2014 wedi ei gyfeirio at 'bwy bynnag a fynno wybod'. Roedd un llythyr yn ymwneud â'r taliad i Mr Bartlett, yr ail lythyr yn ymwneud â'r taliad i Ysgrifenyddes y Cyngor. Mae'r llythyrau hyn yn dangos bod gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol a chontractiol i wneud y taliadau rhodd.
- llythyr a lofnodwyd gan Gadeirydd ac Is-Gadeirydd Pwyllgor Cyllid a Threfniadaeth y Cyngor dyddiedig 24 Hydref 2014 yn datgan eu bod wedi 'cyfarfod â Swyddog Monitro a Dirprwy Swyddog Cyfansoddiadol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ar 9 Medi 2014 i gael cyngor ar gontractau Mr Bartlett ac [Ysgrifenyddes y Cyngor]. Gallwn gadarnhau mai cyngor y Swyddog oedd bod taliadau'r Clerc a'r Ysgrifenyddes yn iawn ac yn briodol'.
- dwy ddogfen wedi'u llofnodi dyddiedig 13 Hydref 2014 ar bapur â phennawd y Cyngor. Roedd un ddogfen yn nodi bod Mr Bartlett yn derbyn taliad 'effeithlonrwydd terfynu' o £19,522.18. Roedd yr ail ddogfen yn nodi bod Ysgrifenyddes y Cyngor yn derbyn taliad 'effeithlonrwydd terfynu' o £23,858.64. Nododd y dogfennau hyn fod y taliadau 'yn unol â'r Rheoliadau Iawndal Statudol.' Mae'r dogfennau wedi'u llofnodi gan Mr Bartlett fel yr unigolyn a oedd wedi cyfrifo'r symiau sy'n ddyledus, a chan ddau gynghorydd yn datgan eu bod wedi gwirio'r cyfrifiadau.

52 Fel y nodir **ym mharagraffau 58 i 80**, ystyriaf fod cynnwys pob un o'r dogfennau hyn yn gamarweiniol ac mewn rhai rhannau yn anghywir. Ymddengys mai eu diben, yn rhannol o leiaf, oedd camarwain Mazars bod y taliadau'n ddilys a bod y Cyngor wedi ceisio cyngor annibynnol priodol cyn ymrwymo i'r taliadau. Fodd bynnag, sylwaf fod y llythyrau cyngor cyfreithiol a'r llythyr gan Gadeirydd ac Is-Gadeirydd Pwyllgor Cyllid a Threfniadaeth y Cyngor wedi'u llunio ar ôl i'r taliadau gael eu gwneud.

53 Adolygodd Mazars y dogfennau a ddarparwyd gan Mr Bartlett a daeth i'r penderfyniad yn seiliedig ar y dogfennau a ddarparwyd i beidio â herio cyfreithlondeb y taliadau fel y cyfryw. Fodd bynnag, daeth Mazars i'r casgliad bod y taliadau'n daliadau arian rhodd ac nid yn arbedion effeithlonrwydd terfynu ac felly'n daliadau trethadwy o dan a393B(2)(a) o Ddeddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003.

54 Ar 29 Hydref 2014, cyhoeddodd Mazars hysbysiad cynghori i'r Cyngor o dan adran 33 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2014. Roedd yr hysbysiad cynghori yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi 21 diwrnod o rybudd i Mazars o unrhyw fwriad i wneud taliadau arian rhodd heb dynnu treth. Fodd bynnag, roedd y taliadau eisoes wedi'u gwneud ar 15 Hydref 2014 heb dynnu treth. Dywedodd Mr Bartlett wrth fy archwilwyr yn y cyfweliad ei fod ar y pryd yn deall bod y taliadau'n 'daliadau effeithlonrwydd terfynu' a gellid eu gwneud heb dynnu treth incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol.

55 Dywedodd Mazars wrth fy archwilwyr nad oedd yn ymwybodol pan gyhoeddodd yr hysbysiad cynghori bod y taliadau eisoes wedi'u gwneud, ac ni wnaeth Mr Bartlett roi gwybod iddynt am y ffaith hon pan ymwelodd â'u swyddfeydd ar 24 Hydref 2014. Dywedodd Mazars wrthyf na fyddai hysbysiad cynghori wedi'i gyhoeddi pe bai wedi cael gwybod bod y taliadau wedi'u gwneud. Diben hysbysiad cynghori yw ceisio atal penderfyniad anghyfreithlon rhag cael ei wneud neu i wariant anghyfreithlon gael ei ysgwyddo. Nid yw'n cyflawni unrhyw swyddogaeth ar ôl y digwyddiad.

56 Yn fy marn i, yn ei ryngweithio â Mazars, mae Mr Bartlett wedi ceisio camarwain Mazars fod ganddo hawl gontractiol i gael arian rhodd sy'n cyfateb i 3.75% y flwyddyn o'i gyflog presennol. Nid oedd gan Mr Bartlett hawl o'r fath. Rhoddodd ddogfennaeth i Mazars a oedd yn cynnwys gwybodaeth ffug er mwyn cefnogi ei hawliad i daliad arian rhodd nad oedd ganddo hawl gyfreithlon iddo. Rwyf hefyd o'r farn bod Mr Bartlett wedi methu'n fwriadol â hysbysu Mazars bod y taliadau arian rhodd a oedd yn destun adolygiad archwilio eisoes wedi'u gwneud, cyn i Mazars gwblhau eu gwaith archwilio mewn cysylltiad â'r taliadau hyn. Yn fy marn i, roedd ymddygiad Mr Bartlett ymhell o fod o'r safon y mae gan y cyhoedd hawl i'w disgwyl gan swyddog llywodraeth leol.

57 Er fy mod o'r farn bod Mr Bartlett wedi ceisio camarwain Mazars ynghylch ei hawl i gael arian rhodd, credaf y dylai Mazars fod wedi gwneud mwy i fodloni ei hun bod gan Mr Bartlett hawl gytundebol i gael arian rhodd, a bod unrhyw daliad arfaethedig wedi'i gyfrifo yn unol â'r Rheoliadau perthnasol.

## Roedd yr wybodaeth a'r cyngor y dibynnai'r Cyngor arnynt wrth benderfynu gwneud taliadau arian rhodd i Glerc ac Ysgrifenyddes y Cyngor yn rhannol, yn anghywir ac yn annigonol

58 Fel y nodwyd ym **mharagraffau 50 i 57**, ar 27 Hydref 2014, darparodd Mr Bartlett ddogfennau i archwilydd allanol y Cyngor, Mazars, a honnodd eu bod yn cefnogi ei hawl ef ac Ysgrifenyddes y Cyngor i gael arian rhodd o £19,522.18 a £23,858.64 yn y drefn honno.

59 Rwyf wedi nodi fy ystyriaethau o bob un o'r dogfennau hyn isod.

### Llythyrau Cyngor Cyfreithiol

60 Ysgrifennodd Mazars at Mr Bartlett ar 23 Hydref 2014 yn gofyn iddo ddarparu 'copi o unrhyw gyngor cyfreithiol a phroffesiynol y mae'r Cyngor wedi'i gael i gadarnhau bod y taliadau'n gyfreithlon a bod y symiau arfaethedig yn briodol'. Yn dilyn y cais gan Mazars ar 23 Hydref 2014 (a ddaeth i law ar ôl i'r taliadau gael eu gwneud) gofynnodd Mr Bartlett am gyngor gan gwmni lleol o gyfreithwyr ynghylch ei hawl ef ac Ysgrifenyddes y Cyngor i gael taliadau terfynu gan y Cyngor.

61 Mae'r llythyrau cyngor a gafodd Mr Bartlett gan y cwmni cyfreithwyr wedi'u dyddio 24 Hydref 2014 ac fe'u hanfonwyd i Mazars i gyfiawnhau'r taliadau. Roedd y

llythyrau'n nodi mai ar gyfer Mr Bartlett ac Ysgrifenyddes y Cyngor (nid y Cyngor) oedd y cyngor cyfreithiol a ddarparwyd. Dywedodd Mr Bartlett wrth fy archwilwyr ei fod yn derbyn 'ei fod yn gamarweiniol o ran ar gyfer pwy yr oedd y cyngor', a'i fod wedi bwriadu mynd yn ôl at y cwmni cyfreithwyr i drefnu bod y llythyrau cyngor yn cael eu hailgyfeirio at y Cyngor ond na wnaeth hynny. Roedd yn amlwg i mi na fwriadwyd i'r cyngor fod yn gyngor i'r Cyngor. Mae'r llythyrau wedi'u cyfeirio at Mr Bartlett ac Ysgrifenyddes y Cyngor y cyfeirir atynt fel cleientiaid y cwmni.

62 Mae'r llythyr cyngor a gyfeiriwyd at Mr Bartlett yn datgan, gan fod cyflogaeth Mr Bartlett 'yn dod i ben cyn bo hir, eu bod nhw [y cwmni cyfreithwyr] wedi adolygu telerau'r contract (cymal 19) a chytunwyd na ddylai ef [Mr Bartlett] gael Pensiwn Llywodraeth Leol ond, yn hytrach, dylai gael arian rhodd yn unol â'r rheoliadau ar y pryd.' Cadarnhaodd y llythyr, 'pe bai taliad o arian rhodd, y byddai'n gyfystyr â 3.75% o'r cyflog a adneuwyd yn fisol mewn cronfa ddiogel'. Mae'r llythyr hefyd yn nodi, 'Gan fod hwn yn gymal penodol o fewn Contract ein Cleient, rydym o'r farn y byddai unrhyw fethiant i dalu'r arian hwn yn gyfystyr â thorri Contract a fyddai'n agored i gyfraith yn y tribiwnlys cyflogaeth.'

63 Fel y nodwyd **ym mharagraffau 25 i 37**, nid oedd gan Mr Bartlett gontract ac ni chafodd erioed gontract a ddywedodd 'pe bai'r [Cyngor] yn talu ... arian rhodd, byddai'n cyfateb i 3.75% o'r cyflog a adneuwyd yn fisol mewn cronfa ddiogel'. Hefyd, tynnodd y llythyr cyngor sylw at y ffaith, o dan y Rheoliadau perthnasol, mai £4,532.40 oedd y swm mwyaf o arian y gallai'r Cyngor ei dalu pe bai ganddo hawl gontractiol i gael taliad, yn hytrach na'r £19,522.18 a gafodd.

64 Mae'r llythyr cyngor gan y cwmni cyfreithwyr lleol mewn cysylltiad â thaliad arian rhodd i Ysgrifenyddes y Cyngor yn nodi 'yn y contract (cymal 6) cytunwyd ar y telerau na ddylai ein Cleient gael Pensiwn Llywodraeth Leol ond yn hytrach, dylai gael arian rhodd fel un rhan o chwech o gyflog blynyddol neu ddwywaith swm y cyflog ar y dyddiad terfynu (pa un bynnag yw'r lleiaf). Mae'n amlwg felly, o ganlyniad i'r cyfnod y cyflogwyd hi, fod gan ein Cleient hawl ar ôl rhoi'r gorau i'w chyflogaeth i gael arian rhodd sy'n cyfateb i ddwywaith swm ei chyflog presennol.'

65 Mae'r llythyr cyngor yn nodi ymhellach 'Rydym wedi cael cyfle i astudio'r rheoliadau sy'n cadarnhau os telir arian rhodd yna bydd yn swm yn hafal i 3.75% o'r cyflog a adneuwyd yn fisol mewn cronfa ddiogel. Y gronfa gronnol i'w thalu'n llawn ar ddiwedd cyflogaeth, yn amodol ar gwblhau pum mlynedd barhaus o wasanaeth boddhaol'.

66 Fel y nodwyd, ym **mharagraffau 88 i 91** isod, roedd gan Ysgrifenyddes y Cyngor ddarpariaeth yn ei chontract cyflogaeth yn nodi'r hawl i gael taliad arian rhodd o'r lleiaf o un rhan o chwech o'r cyflog blynyddol neu ddwywaith swm y cyflog ar y dyddiad terfynu. Roedd y taliad i Ysgrifenyddes y Cyngor yn unol â'r ddarpariaeth hon. Fodd bynnag, nid yw'r Rheoliadau perthnasol sy'n gymwys i'r Ysgrifenyddes (Rhan K o Reoliadau Blwydd-daliadau Llywodraeth Leol 1986 (fersiwn sydd mewn grym o 1 Ebrill 1987)) yn datgan y bydd yr arian rhodd 'yn swm sy'n hafal i 3.75% o'r cyflog a adneuwyd yn fisol mewn cronfa ddiogel. Y gronfa gronnol i'w thalu'n

llawn wrth derfynu'r gyflogaeth, yn amodol ar gwblhau pum mlynedd barhaus o wasanaeth boddhaol.' Mae'r cyngor cyfreithiol yn y llythyr, felly, yn anghyson.

67 Hefyd, fel y nodir **ym mharagraffau 22 a 23**, roedd y rheoliadau perthnasol yn rhagnodi terfyn ar y swm y gallai cynghorau ei dalu i aelod o staff drwy arian rhodd, a sut y dylid cyfrifo'r terfyn hwn. Roedd y swm a dalwyd i Ysgrifenyddes y Cyngor £15,890.11 yn uwch na'r uchafswm yr oedd gan y Cyngor y pŵer i'w dalu.

68 Sylwaf fod Mr Bartlett, ym mis Tachwedd 2014, wedi hawlio ad-daliad o £192 gan y Cyngor mewn cysylltiad â'r cyngor cyfreithiol yr oedd wedi'i geisio gan y cwmni cyfreithwyr lleol o ran ei daliadau arian rhodd ei hun a thaliadau Ysgrifenyddes y Cyngor. Gan nad oedd y cyngor cyfreithiol yn gyngor i'r Cyngor, ond yn gyngor personol y gofynnwyd amdano gan Mr Bartlett, credaf nad oedd gan Mr Bartlett hawl i hawlio ad-daliad o'r costau hyn ac roedd y taliad o £192 yn groes i'r gyfraith.

69 Ni ddylai'r Cyngor fod wedi derbyn y cyngor a roddwyd gan Mr Bartlett gan y cyfreithiwr a gyfarwyddwyd ganddo am nad oedd y cyngor yn gyngor cyfreithiol annibynnol, ni fwriadwyd erioed ar gyfer y Cyngor ac roedd yn anghywir.

## Llythyr wedi'i lofnodi gan Gadeirydd ac Is-Gadeirydd Pwyllgor Cyllid a Threfniadaeth y Cyngor dyddiedig 24 Hydref 2014

70 Mae cofnodion cyfarfod o Bwyllgor Cyllid a Threfniadaeth y Cyngor a gynhaliwyd ar 8 Hydref 2014 yn cofnodi bod y 'Clerc [Mr Bartlett] wedi tynnu sylw at daliadau Arbedion Effeithlonrwydd Terfynu. Taliadau arian rhodd arfaethedig oedd y rhain, taliad o £19,522.18 iddo ef ei hun a thaliad o £23,858.64 i Ysgrifenyddes y Cyngor, yn y drefn honno.' Mae'r cofnodion yn cofnodi bod Mr Bartlett wedi dweud wrth y cyfarfod ei fod ef, y Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor wedi cyfarfod â Dirprwy Swyddog Cyfreithiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent' i gael cadarnhad o ran y taliadau hyn'. Dywedodd Mr Bartlett wrth y cyfarfod ei fod hefyd wedi cael cadarnhad gan 'y Cyfrifydd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent' fod 'y taliadau yn gywir'. Mae'r cofnodion yn cofnodi bod 'Gorchymyn Rhif 7 2014/15 [gorchymyn talu a oedd yn cynnwys y taliadau arian rhodd] wedi'i gynnig ac argymhellwyd ei fod yn cael ei dalu. '

71 Rwyf wedi cadarnhau bod Mr Bartlett, a Chadeirydd ac Is-Gadeirydd Pwyllgor Cyllid a Threfniadaeth y Cyngor ar y pryd (y Cynghorydd Glyn Smith a'r Cynghorydd John Tiley yn y drefn honno) yn bresennol mewn cyfarfod ar 9 Medi 2014 gyda Swyddog Cyswllt Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ar y pryd yn swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Yn y cyfarfod hwn, trafodwyd taliadau arfaethedig i Mr Bartlett ac Ysgrifenyddes y Cyngor. Mae swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn honni na roddodd ei Swyddog Cyswllt Cymunedol unrhyw gyngor ffurfiol ynghylch y taliadau, ac ni ddarparwyd unrhyw gyngor ysgrifenedig. Mae cyn Is-Gadeirydd Pwyllgor Cyllid a Threfniadaeth y Cyngor wedi dweud wrthyf, er bod y cyfarfod wedi'i gynnal yn ffreutur y staff, mai ei ddealltwriaeth oedd ei fod yn gyfarfod ffurfiol i gael cyngor ynghylch y taliadau. Mae'n cofio bod y cyfarfod yn fyr iawn, a bod y Swyddog Cyswllt Cymunedol wedi sicrhau'r rhai a oedd yn bresennol, yn seiliedig ar y

ddogfennaeth a welodd, nad oedd problem ynghylch y taliadau arfaethedig. Mae Is-Gadeirydd Pwyllgor Cyllid a Threfniadaeth y Cyngor wedi dweud wrthyf nad oedd yn ymwneud â threfnu'r cyfarfod, ac ni welodd y ddogfennaeth a ddarparwyd ar gyfer Swyddog Cyswllt y Cyngor Cymuned i lywio ei gyngor.

72 Mae Pennaeth Cydymffurfiaeth Gyfreithiol a Chorfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi cadarnhau bod Prif Swyddog Cyflogres Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi cael sgwrs â Mr Bartlett ond mai 'dim ond gwybodaeth anffurfiol a ddarparodd y swyddog hwn o natur bersonol yn ymwneud â'r effaith y gallai taliad terfynu ei chael ar drethiant personol'.

73 Credaf fod y sicrwydd a roddwyd gan Mr Bartlett i Bwyllgor Cyllid a Threfniadaeth y Cyngor yn anghywir ac na ddylai'r Pwyllgor fod wedi dibynnu arno fel sail ar gyfer argymell y dylid gwneud y taliadau. Ar 15 Hydref 2014, cyn yr argymhelliad i gyfarfod o'r Cyngor llawn y dylid talu'r symiau, gwnaed taliadau â siec o £19,522.18 a £23,858.64 i Mr Bartlett ac Ysgrifenyddes y Cyngor yn y drefn honno. Rwyf o'r farn na ddylai'r taliadau a wnaed fod wedi'u talu nes bod cyfarfod o'r Cyngor llawn wedi ystyried argymhelliad y Pwyllgor.

## Dogfennau wedi'u llofnodi dyddiedig 13 Hydref 2014 yn ymwneud â thaliadau 'effeithlonrwydd terfynu' i'r Clerc ac Ysgrifenyddes y Cyngor

74 Ar 13 Hydref 2014, cyflwynodd Mr Bartlett ddwy ddogfen wedi'u llofnodi ar bapur â phennawd y Cyngor at archwilydd penodedig y Cyngor, Mazars. Roedd un ddogfen yn nodi bod Mr Bartlett wedi derbyn taliad 'effeithlonrwydd terfynu' o £19,522.18. Roedd yr ail ddogfen yn nodi bod Ysgrifenyddes y Cyngor wedi derbyn taliad 'effeithlonrwydd terfynu' o £23,858.64.

75 Er y cyfeiriwyd at y taliadau hyn fel 'taliadau effeithlonrwydd terfynu', roeddent mewn gwirionedd yn daliadau yn ôl disgresiwn neu'n arian rhodd. Roedd Mr Bartlett ac Ysgrifenyddes y Cyngor wedi hysbysu'r Cyngor eu bod yn gadael eu cyflogaeth.

76 Llofnodwyd y ddogfen yn ymwneud â thaliad Mr Bartlett gan Gadeirydd y Cyngor, y Cynghorydd Glyn Smith. Mae'r ddogfen yn nodi bod y taliad o £19,522.18 yn 'unol â Rheoliadau Iawndal Statudol'.

77 Mae'r ddogfen hefyd yn nodi 'ar ôl cael eich ffurflen opsiwn wedi'i llenwi ac yn unol â Pholisi Arbedion Effeithlonrwydd Terfynu'r Cyngor ac Adroddiad y Comisiwn Archwilio, *A Retiring Nature*, mae'n rhaid i hon gael ei hystyried a'i chymeradwyo gan y Pwyllgor Cyllid'. Mae Mr Bartlett wedi cadarnhau mewn cyfweliad nad oedd gan y Cyngor 'Bolisi Arbedion Effeithlonrwydd Terfynu'. Hefyd, ni lanwyd 'ffurflen opsiwn'. Dywedodd Mr Bartlett wrth fy archwilwyr fod y ddogfen a lofnodwyd gan y Cynghorydd Smith yn un a ddefnyddiwyd gan awdurdod unedol yng Nghymru ac roedd y Cyngor wedi mabwysiadu'r ddogfen hon at ddibenion cyfrifo ei daliad ef a thaliad Ysgrifenyddes y Cyngor.

78 Ynghlwm wrth y ddogfen a lofnodwyd gan y Cynghorydd Smith mae ffurflen ddwy ran. Mae rhan gyntaf y ffurflen yn dangos 'cyfrifiad o'r taliad arbedion effeithlonrwydd amcangyfrifedig'. Cofnodir bod Mr Bartlett wedi cyfrifo bod taliad o £19,522.18 yn ddyledus iddo. Nid yw'r ffurflen yn nodi sut y cyfrifodd y swm hwn. Llofnodwyd y ffurflen i gadarnhau bod dau gynghorydd wedi gwirio'r cyfrifiadau (y Cynghorydd Rob Phillips a'r Cynghorydd Smith). Mae ail ran y ffurflen yn nodi bod Mr Bartlett wedi llofnodi i gadarnhau ei fod yn derbyn 'taliad arbedion effeithlonrwydd terfynu'. Mae'r llofnod wedi'i ddyddio 13 Hydref 2014.

79 Mewn cyfweliad, dywedodd Mr Bartlett wrth fy archwilwyr nad oedd y cyfrifiad yn seiliedig ar y Rheoliadau sy'n llywodraethu talu taliadau arian rhodd (er bod ei gontract yn nodi y byddai unrhyw daliad arian rhodd yn unol â'r Rheoliad mewn grym ar y pryd). Dywedodd Mr Bartlett wrth fy archwilwyr fod swm y taliad mewn gwirionedd yn seiliedig ar y swm a ddelir yng nghyfrif banc y Cyngor a neilltuwyd ar gyfer taliadau arian rhodd. Yn ystod cyfnod cyflogaeth Mr Bartlett, trosglwyddodd y Cyngor £14,502 i'r cyfrif banc arian rhodd. Ar 4 Gorffennaf 2014, balans y cyfrif oedd £19,097.28. Y gwahaniaeth o £4,595.25 yw llog a gronnwyd ar y cyfrif (£2,738.95) a balans y cyfrif a oedd yn dyddio yn ôl i gyfnod cyn i Mr Bartlett fod yn ei swydd (£1,856.33). Ar 4 Gorffennaf 2014, trosglwyddodd Mr Bartlett £19,092.46 o gyfrif banc arian rhodd y Cyngor i gyfrif cyfredol y Cyngor. Nid oedd y Cyngor bryd hynny wedi awdurdodi bod unrhyw swm yn cael ei dalu i Mr Bartlett ar ddiwedd ei gyflogaeth.

80 Rwyf o'r farn fod gweithredoedd pawb sy'n ymwneud ag ardystio'r ffurflenni hyn o safon llawer is nag a ddisgwylir gan swyddogion cyhoeddus am y rhesymau canlynol:

- er bod Cadeirydd y Cyngor ar y pryd, y Cynghorydd Smith wedi ardystio bod y taliadau 'yn unol â'r Rheoliadau Iawndal Statudol', nid oedd gan y Clerc na'r Ysgrifenyddes unrhyw hawl i daliad iawndal statudol, ac nid oedd y symiau a nodwyd wedi'u cyfrifo o dan unrhyw reoliadau o'r fath.
- Ardystiodd y Cynghorydd Smith 'yn unol â Pholisi Arbedion Effeithlonrwydd Terfynu'r Cyngor ac Adroddiad y Comisiwn Archwilio, *'A Retiring Nature'*, fod yn rhaid i hyn gael ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Cyllid'. Nid oedd gan y Cyngor Bolisi Arbedion Effeithlonrwydd Terfynu a llywodraethwyd y system o gymeradwyo ar gyfer taliadau a wnaed gan y Cyngor gan Reolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol y Cyngor ei hun ac nid gan gyhoeddiad y Comisiwn Archwilio y cyfeiriwyd ato.
- Ardystiodd y Cynghorydd Smith a'r Cynghorydd Phillips eu bod wedi gwirio'r cyfrifiadau talu a baratowyd gan Mr Bartlett. Fodd bynnag, ni pharatowyd unrhyw gyfrifiadau talu. Mae Mr Bartlett wedi cadarnhau wrth fy archwilwyr fod y swm a benderfynodd y dylid ei dalu iddo'i hun wedi'i bennu gan y swm yr oedd y Cyngor wedi'i gronni yn y cyfrif banc arian rhodd ac na chafodd ei gyfrifo yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Hefyd, mae rhan o'r balans a ddelir yn y cyfrif banc arian rhodd yn dod o gyfnod cyn i Mr Bartlett ddechrau gweithio i'r Cyngor.

- Rwy'n ystyried ei bod yn gwbl amhriodol i Mr Bartlett chwarae unrhyw ran wrth bennu'r swm y dylid ei dalu iddo fel arian rhodd ar ddiwedd ei gyflogaeth. Roedd ganddo fuddiant ariannol personol a rhagfarnus yn y mater hwn a oedd, yn fy marn i, yn ei anghymhwyso rhag bod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Dylai fod wedi rhoi gwybod i'r Cyngor fod angen iddo gael cyngor diduedd ynghylch pa daliad arian rhodd, os o gwbl, y dylid ei wneud. Rwyf hefyd o'r farn y dylai aelodau'r Cyngor fod wedi cydnabod ei bod yn amhriodol i Mr Bartlett fod yn rhan o'r broses o bennu swm ei daliad arian rhodd ei hun.

81 Mewn ymateb i ddrafft o'r adroddiad hwn a oedd yn cael ei ystyried gan y Cyngor, dywedodd y Cynghorwyr Smith a Phillips 'na fyddent wedi gweithredu fel y gwnaethant wrth gymeradwyo'r taliadau arian rhodd anghyfreithlon pe na baent wedi cael y cyngor cyfreithiol yr oedd Mr. Bartlett wedi'i gyflwyno iddynt, ac o'r sgwrs a gafwyd gyda Swyddog Cyfreithiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ar y pryd'.

## Cymerodd Mr Bartlett ran yn y broses o wneud penderfyniadau a arweiniodd at daliad o arian rhodd iddo er bod ganddo fuddiant rhagfarnus yn y canlyniad

82 Mae'n hanfodol nad yw swyddogion llywodraeth leol yn caniatáu i'w buddiannau eu hunain wrthdaro â'u dyletswydd gyhoeddus. Pan fo gan swyddog llywodraeth leol fuddiant rhagfarnus mewn mater, (buddiant rhagfarnus yw un y byddai aelod o'r cyhoedd sy'n gwybod y ffeithiau perthnasol yn credu'n rhesymol ei fod mor sylweddol fel ei fod yn debygol o effeithio ar farn unigolyn o ran budd y cyhoedd) mae'n rhaid iddo beidio â chamddefnyddio ei safle swyddogol neu wybodaeth a gafodd yn ystod ei gyflogaeth er mwyn hybu ei fuddiannau ei hun. Felly, ni ddylai fod yn rhan o unrhyw broses o wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'r mater y mae ganddo fuddiant rhagfarnus ynddo.

83 Rwyf o'r farn fod gan Mr Bartlett fuddiant rhagfarnus yn y broses a arweiniodd at daliad o arian rhodd iddo gan y Cyngor ym mis Hydref 2014. Serch hynny, cymerodd ran yn y broses mewn sawl ffordd, gan gynnwys y canlynol:

- ar 9 Medi 2014, cynhaliodd Mr Bartlett a Chadeirydd ac Is-gadeirydd Pwyllgor Cyllid a Threfniadaeth y Cyngor gyfarfod â Swyddog Cyswllt Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ar y pryd lle trafodwyd taliadau arfaethedig. Cynhaliodd Mr Bartlett gyfarfod hefyd gyda Phrif Swyddog Cyflogres Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i drafod materion yn ymwneud â'r taliadau arfaethedig. Ni chadwyd unrhyw nodiadau o'r cyfarfodydd hyn gan gynrychiolwyr Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd a oedd yn bresennol. Rwyf o'r farn na ddylai Mr Bartlett fod wedi bod yn rhan o drafodaethau o'r fath gan fod ganddo fuddiant rhagfarnus yng nghanlyniad unrhyw benderfyniad yn ymwneud â thalu taliad terfynu iddo'i hun (**paragraffau 71 i 73**).

- ar 7 Hydref 2014, llanwodd Mr Bartlett ffurflen a oedd yn cyfrifo swm y taliad y byddai'n ei gael ar ddiwedd ei gyflogaeth. Rwyf o'r farn nad oedd unrhyw sail gontractiol na chyfreithlon i'r swm a gyfrifwyd. Ni ddylai Mr Bartlett fod wedi cymryd rhan yn y gwaith o gyfrifo ei daliad terfynu ei hun **(paragraffau 74 i 79**).
- Roedd Mr Bartlett yn bresennol ac yn cymryd rhan mewn cyfarfod o Bwyllgor Cyllid a Threfniadaeth y Cyngor a gynhaliwyd ar 8 Hydref 2014, pryd cytunodd yr aelodau i argymell i'r Cyngor llawn y dylid gwneud 'taliad effeithlonrwydd terfynu' o £19,522.18 i Mr Bartlett ar ddiwedd ei gyflogaeth. Dywedodd Mr Bartlett wrth y Pwyllgor ei fod wedi cael cyngor gan swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent bod y taliad arfaethedig iddo'i hun (a thaliad i Ysgrifenyddes y Cyngor) 'yn gywir' (**paragraff 70**).
- ar 15 Hydref 2014, prosesodd Mr Bartlett daliad â siec iddo'i hun er nad oedd y Cyngor llawn, bryd hynny, wedi cymeradwyo'r taliad **(paragraff 73 a 79**).
- ar 24 Hydref 2014, cafodd Mr Bartlett gyngor cyfreithiol gan gwmni cyfreithwyr lleol yr oedd wedi gofyn amdano yn breifat ynglŷn â'i hawl gontractiol i gael taliad terfynu. Cyflwynodd Mr Bartlett y cyngor i gyfarfod o'r Cyngor ar 29 Hydref 2014. Nid yw cofnodion cyfarfod y Cyngor yn cofnodi bod yr aelodau wedi cael gwybod mai cyngor cyfreithiol personol Mr Bartlett oedd y cyngor ac nad oedd yn gyngor a fwriadwyd ar gyfer y Cyngor **(paragraffau 60 i 69**).
- roedd Mr Bartlett yn bresennol ac yn cymryd rhan mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn a gynhaliwyd ar 29 Hydref 2014 pryd cymeradwyodd y Cyngor fod Mr Bartlett i cael taliad trethadwy o £19,522.18 (paragraffau **84 i 85**).

84 Mae cofnodion cyfarfod o'r cyngor llawn a gynhaliwyd ar 29 Hydref 2014 yn cofnodi y cafodd 'Gorchymyn Rhif 7 (2014-15) ei ystyried a chytunwyd y dylid ei dalu. Adroddodd y Clerc am hysbysiad cynghori a gafwyd mewn cysylltiad â'r ddwy eitem ddiwethaf, siec 6617 a 6618, (Gohebiaeth Mazars at Glerc, Arweinydd y Cyngor a Chadeirydd y Cyngor). Nododd gohebiaeth Mazars fod hysbysiad cynghori wedi'i gyflwyno yn nodi nad oedd y Taliadau Arbedion Effeithlonrwydd Terfynu yn briodol, felly, yn amodol ar y Cyngor yn cadarnhau cytundebau contractiol, byddai'r ddau daliad yn destun cynllun talu wrth ennill (PAYE) ac yn cael eu talu net yn hytrach na gros.'

85 Mae'r cofnodion hyn hefyd yn cofnodi 'ei fod yn benderfyniad unfrydol gan y Cyngor bod y cytundebau contractiol yn gymwys (gohebiaeth gan [gwmni cyfreithwyr lleol], i [Ysgrifenyddes y Cyngor] – gan gadarnhau 'mae'n amlwg felly, o ganlyniad i'r cyfnod o gyflogaeth, fod gan ein Cleient hawl ar ddiwedd ei chyflogaeth i daliad arian rhodd sy'n cyfateb i ddwywaith swm ei chyflog blynyddol presennol'. Mae gohebiaeth gan [gwmni cyfreithwyr lleol], i Graham Bartlett – yn cadarnhau 'Ei bod yn amlwg, felly, fod gan ein Cleient hawl, ar ddiwedd ei gyflogaeth i daliad o'r gronfa arian rhodd sydd wedi cronni.' Cadarnhaodd

Cadeirydd y Cyngor a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Threfniadaeth unwaith eto ei ymweliad â Dirprwy Swyddog Cyfreithiol CBSBG, ynghyd ag Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Threfniadaeth lle cawsant gadarnhad ar y mater hwn gan y Dirprwy Swyddog Cyfreithiol. Y ddau daliad i fod yn destun PAYE ac i'w talu net yn hytrach na gros ac wedi'u haddasu yn unol â hynny."

86 Ar 29 Hydref 2014, ad-dalodd Mr Bartlett £19,522.18 i'r Cyngor a gwnaeth y Cyngor daliad newydd i Mr Bartlett o £15,611.58 (£19,522.18 minws treth). Ar 10 Tachwedd 2014, ad-dalodd Ysgrifenyddes y Cyngor £6,822.21 i'r Cyngor, y dreth a oedd yn ddyledus ar ei thaliad arian rhodd.

87 Credaf fod Mr Bartlett wedi cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau a arweiniodd at daliad arian rhodd yn cael ei wneud iddo yn anghyfreithlon er bod ganddo fuddiant rhagfarnus yn y mater hwn. Ni ddatganodd Mr Bartlett ei fuddiant yn y mater hwn, ac wrth wneud hynny, roedd ei ymddygiad o safon llawer is na'r hyn sy'n ofynnol i swyddog llywodraeth leol.

## Darparodd contract cyflogaeth yr Ysgrifenyddes yr hawl iddi gael arian rhodd ar ddiwedd ei chontract, ond roedd y ddarpariaeth gontractiol yn anghyfreithlon gan fod y taliad o £15,890 a gafodd yn fwy na'r hyn a ganiateir o dan ddeddfwriaeth

### Roedd gan Ysgrifenyddes y Cyngor hawl gontractiol i gael taliad arian rhodd adeg ei hymddeoliad o'r Cyngor

88 Ar 5 Mehefin 1986, penododd y Cyngor gyflogai dros dro i ddarparu gwasanaeth ar ran y cyn Glerc/Teipydd y Cyngor a oedd yn absennol oherwydd salwch. Ar ddiwedd cyflogaeth y Clerc/Teipydd, penderfynodd cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 8 Ebrill 1987 benodi'r cyflogai dros dro yn Ysgrifenyddes parhaol y Cyngor.

89 Ar 1 Hydref 1987, ymrwymodd y Cyngor i gontract cyflogaeth ysgrifenedig gydag Ysgrifenyddes y Cyngor a oedd newydd ei phenodi.

90 Mae paragraff 6 o'r contract cyflogaeth yn nodi darpariaeth i Ysgrifenyddes y Cyngor gael arian rhodd ar ddiwedd ei chyflogaeth, 'Gan nad oes gan yr Ysgrifenyddes hawl i bensiwn yn y swydd hon, felly ar yr amod y bydd yr Ysgrifenyddes wedi gwasanaethu'r Cyngor am gyfnod o bum mlynedd o leiaf o 5 Mehefin 1986 bydd y Cyngor wrth ddod â'r cytundeb hwn i ben ... yn arfer ei bŵer o dan y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Blwydd-daliadau Llywodraeth Leol i dalu arian rhodd i'r Ysgrifenyddes neu i'w gŵr gweddw yn ôl y digwydd. Ni fydd y swm a delir felly yn llai na'r gyfran o gyflog blynyddol yr Ysgrifenyddes ar ddyddiad terfynu neu farwolaeth a fydd yn cyfateb i un chweched ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth neu ddwywaith swm cyflog yr Ysgrifenyddes ar ddyddiad terfynu o'r fath, pa un bynnag yw'r lleiaf.'

91 Felly, rwy'n fodlon bod gan Ysgrifenyddes y Cyngor hawl gontractiol i gael taliad arian rhodd gan y Cyngor ar ddiwedd ei chyflogaeth, ac roedd gan y Cyngor y pŵer i wneud taliad o'r fath yn amodol ar unrhyw uchafswm a bennwyd yn y Rheoliadau perthnasol ar yr adeg y gwnaed y contract.

## Talwyd £15,890 yn fwy na'r uchafswm a ganiateir o dan ddeddfwriaeth i Ysgrifenyddes y Cyngor

92 Fel y nodir uchod, rwy'n fodlon bod gan Ysgrifenyddes y Cyngor hawl gontractiol i gael taliad arian rhodd gan y Cyngor ar ddiwedd ei chyflogaeth, ac roedd gan y Cyngor y pŵer i wneud taliad o'r fath yn amodol ar unrhyw uchafswm a bennwyd yn y Rheoliadau perthnasol ar yr adeg y gwnaed y contract.

93 Ym mis Hydref 2014, talwyd £23,858.64 i Ysgrifenyddes y Cyngor (cyn didyniadau statudol) fel y nodir yn ei chontract. Fodd bynnag, roedd y swm a dalwyd gan y Cyngor yn sylweddol uwch na'r uchafswm y gellid ei dalu o dan y ddeddfwriaeth berthnasol a oedd mewn grym ar yr adeg y rhoddodd y Cyngor hawl iddi gael arian rhodd pan ddaeth ei chyflogaeth i ben.

94 Mae fy archwilwyr wedi cyfrifo mai'r uchafswm y gallai'r Cyngor fod wedi'i dalu'n gyfreithlon fel arian rhodd i Ysgrifenyddes y Cyngor oedd £7,968.52. Felly, rwyf o'r farn fod y Cyngor wedi talu £15,890.11 yn fwy na'r uchafswm statudol.

95 Derbyniaf fod gan Ysgrifenyddes y Cyngor ddisgwyliad dilys yn seiliedig ar ei chontract cyflogaeth y byddai'n cael yr hyn sy'n cyfateb i gyflog o ddwy flynedd pan adawodd gyflogaeth y Cyngor yn 2014. Derbyniaf hefyd fod Ysgrifenyddes y Cyngor wedi gweithredu'n ddidwyll a'i bod wedi cael yr hyn yr oedd hi'n credu yr oedd hawl ganddi i'w gael.

96 Roedd y Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod y contract a gynigiodd i Ysgrifenyddes y Cyngor yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol, a gweithredodd mewn camgymeriad wrth roi contract iddi a oedd yn cynnwys hawl i gael arian rhodd a oedd yn fwy na'r uchafswm statudol.

# Cafodd y Clerc a'r Ysgrifenyddes daliadau cyflog yn fwy na'r symiau y cytunwyd arnynt yn ffurfiol gan y Cyngor ac ychwanegodd y Clerc fwy o atchwanegiadau anawdurdodedig at ei gyflog

## Cafodd y Clerc daliadau cyflog yn fwy na'r symiau y cytunwyd arnynt yn ffurfiol gan y Cyngor ac ychwanegodd y Clerc fwy o atchwanegiadau anawdurdodedig at ei gyflog ei hun

### Rhwng 1 Ebrill 2005 a 31 Hydref 2014, cafodd y Clerc £3,384 mewn taliadau cyflog nad oedd y Cyngor wedi cytuno arnynt

97 Tan 2005, pennwyd cyflog Mr Bartlett fel Clerc yn lleol gan y Cyngor. Ar 27 Gorffennaf 2005, mae cofnodion cyfarfod o'r Cyngor llawn yn cofnodi, ar ôl ystyried cyflog y Clerc, 'Cymeradwyodd Aelodau'r Cyngor strwythur cyflogau Graddfa LC3, Meincnod 40, y dylid ei ddefnyddio ar gyfer ei gyflog.' Mae'r cofnod hwn yn cyfeirio at 'Gytundeb Cenedlaethol ar Gyflogau ac Amodau Gwasanaeth Clercod Cynghorau Lleol yng Nghymru a Lloegr 2004' a negodwyd gan CGCLl a SLCC. O'r adeg hon, pennwyd cyflog Mr Bartlett yn unol ac yn amodol ar raddfa gyflog genedlaethol CGCLl/SLCC, a phob blwyddyn roedd disgwyl i gyflog Mr Bartlett godi yn sgil unrhyw ddyfarniad cyflog blynyddol a negodwyd yn genedlaethol.

98 Yn ei gyfarfod ar 27 Gorffennaf 2005, cytunodd y Cyngor y dylai cyflog Mr Bartlett fod ar bwynt 40 ar y golofn gyflog o'r graddfeydd cyflog cenedlaethol. Ym mlwyddyn ariannol 2004-05, roedd pwynt 40 ar y golofn gyflog o'r graddfeydd cyflog cenedlaethol yn £30,747. Roedd hyn yn seiliedig ar wythnos waith 37 awr. Gan fod oriau contractiol Mr Bartlett yn 25 awr yr wythnos, pennwyd ei gyflog ar y gyfradd pro-rata o £20,775 y flwyddyn. Mr Bartlett oedd yn gyfrifol am weinyddu cyflogres y Cyngor.

99 Ym mis Medi 2009, cynyddodd Mr Bartlett ei gyflog 3.81%. Fodd bynnag, y dyfarniad cyflog cenedlaethol a bennwyd gan CGCLl a SLCC oedd 1%. Yn sgil hyn talwyd Mr Bartlett ar gyfradd uwch na phwynt 40 ar y golofn gyflog o'r graddfeydd cyflog cenedlaethol nes i'w gyflogaeth ddod i ben ar 31 Hydref 2014. Y swm cronnol o dâl a gafodd Mr Bartlett a oedd yn fwy na'r swm a oedd yn daladwy ar bwynt 40 ar y golofn gyflog oedd £3,384. Pan adawodd Mr Bartlett gyflogaeth y Cyngor ar 31 Hydref 2014, roedd ei gyflog cyfwerth ag amser llawn yn £35,423, tra bod pwynt 40 ar y golofn gyflog o'r raddfa gyflog genedlaethol bryd hynny yn £33,998. Mae **Arddangosyn 2** yn nodi'r symudiadau yng nghyflog Mr Bartlett rhwng 1 Ebrill 2005 a 31 Hydref 2014 o'u cymharu â'r graddfeydd cyflog cenedlaethol.

**Arddangosyn 2 – taliadau cyflog a wnaed i Glerc y Cyngor o'u cymharu â graddfeydd cenedlaethol CGCLI/SLCC**

| Blwyddyn ariannol | Pwynt cyflog 40 (£) CGCLI/SLCC | Dyfarniad cyflog cenedlaethol yn weithredol o 1 Ebrill (%) | Pwynt 40 ar y golofn gyflog Pro Rata 25/37 (£) | Cyflog blynyddol Graham Bartlett fel y'i talwyd (£) | Cynnydd blynyddol i'r cyflog sylfaenol | Taliad cronnol dros/(o dan) (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | % | £ | £ | % | |
| 2005/6 | 30747 | | 20775 | 20775 | | 0 |
| 2006/7 | 31653 | 2.95% | 21387 | 21389 | 3% | 2 |
| 2007/8 | 32436 | 2.47% | 21916 | 21912 | 2.44% | -2 |
| 2008/9[1] | 33328 | 2.75% | 22519 | 22449 | 2.45% | -72 |
| 2009/10 | 33661 | 1.00% | 22744 | 23304 | 3.81% | 488 |
| 2010/11 | 33661 | 0.00% | 22744 | 23344 | 0.00% | 1088 |
| 2011/12 | 33661 | 0.00% | 22744 | 23344 | 0.00% | 1688 |
| 2012/13 | 33661 | 0.00% | 22744 | 23344 | 0.00% | 2288 |
| 2013/14 | 33998 | 1.00% | 22972 | 23577 | 1% | 2893 |

| Blwyddyn ariannol | Pwynt cyflog 40 (£) CGCLI/SLCC | Dyfarniad cyflog cenedlaethol yn weithredol o 1 Ebrill (%) | Pwynt 40 ar y golofn gyflog Pro Rata 25/37 (£) | Cyflog blynyddol Graham Bartlett fel y'i talwyd (£) | Cynnydd blynyddol i'r cyflog sylfaenol | Taliad cronnol dros/o dan (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | % | £ | £ | % | |
| 2014/15<br>Ar<br>31/10/14 | 33998 | 0.00% | 22972 | 23813 | 0.99% | 3384 |

Ffynhonnell: Cofnodion cyflogres y Cyngor a graddfeydd cyflog blynyddol a gyhoeddwyd gan CGCLI/SLCC

[1] Ym mis Mawrth 2008 a mis Ebrill 2008, talwyd goramser i Ysgrifenyddes y Cyngor am weithio 15 awr ychwanegol y mis. Ym mis Mai 2008, ymgorfforwyd y swm a oedd yn cael ei dalu fel goramser yng nghyflog sylfaenol Ysgrifenyddes y Cyngor (gweler **paragraff 109**). Mae'r golofn, 'y cyflog pe bai cyfraddau cenedlaethol wedi'u defnyddio' wedi'i haddasu o 2000-09 ymlaen i adlewyrchu'r newid yn yr oriau a weithiwyd.

100 Adolygodd fy archwilwyr gofnodion y Cyngor yn ystod y cyfnod hwn ond ni chanfuwyd unrhyw gyfeiriad at y Cyngor yn cymeradwyo bod Mr Bartlett i gael ei dalu'n fwy na phwynt 40 ar y golofn gyflog o'r graddfeydd cenedlaethol. Mr Bartlett oedd yn gyfrifol am gymryd cofnodion y Cyngor.

101 Dywedodd Mr Bartlett wrth fy archwilwyr y gallai'r gwahaniaeth fod wedi digwydd oherwydd ar un achlysur cyhoeddodd CGCLI/SLCC ganran dyfarniad cyflog blynyddol cychwynnol a gynyddwyd ar ôl hynny. Fodd bynnag, mae'r cyfraddau cyflog a nodir yn **Arddangosyn 2** yn cynrychioli'r cyfraddau cyflog terfynol ar gyfer pob un o'r blynyddoedd dan sylw ac felly nid yw'r esboniad hwn yn esbonio'r amrywiant. Mae Mr Bartlett hefyd wedi awgrymu y gallai'r gwahaniaeth fod wedi digwydd oherwydd yn 2015 cynyddodd ei oriau dan gontract ddwy awr yr wythnos 'am fod yn Swyddog Ariannol Cyfrifol [y Cyngor]. Fodd bynnag, gan nad oedd cyflog Mr Bartlett yn gwyro'n sylweddol oddi wrth bwynt 40 ar y golofn gyflog o raddfeydd cenedlaethol CGCLI/SLCC tan y flwyddyn ariannol 2009-10 (gweler **Arddangosyn 1**), nid oes unrhyw werth yn esboniad Mr Bartlett. Sylwaf hefyd mai

Mr Bartlett oedd Swyddog Ariannol Cyfrifol y Cyngor ers dechrau ei gyflogaeth ym 1989.

## Rhwng 1 Ionawr 2005 a 31 Hydref 2014, cafodd y Clerc £4,806 mewn taliadau nad oedd y Cyngor wedi cytuno arnynt

102 Mae gan y rhan fwyaf o gynghorau cymuned bolisi goramser sy'n galluogi cyflogeion, pan fo'n ofynnol iddynt weithio mwy na'r oriau dan gontract, i hawlio tâl ychwanegol am y goramser a weithir, yn amodol ar gael cymeradwyaeth. Nid oedd gan y Cyngor bolisi goramser yn ystod y cyfnod y cyflogwyd Mr Bartlett yn Glerc y Cyngor. Nid yw absenoldeb polisi o'r fath yn atal cyfarfod o'r Cyngor rhag cymeradwyo taliadau goramser. Pan delir goramser, mae'r taliadau'n destun didyniadau treth (ac yswiriant gwladol hyd at oedran Pensiwn y Wladwriaeth).

103 Mae gan y rhan fwyaf o gynghorau cymuned bolisi treuliau sy'n galluogi gweithwyr i adennill treuliau y maent wedi'u hysgwyddo wrth gyflawni busnes swyddogol y cyngor. Yn ystod cyfnod Mr Bartlett yn Glerc, nid oedd gan y Cyngor bolisi treuliau. Fodd bynnag, mae contract cyflogaeth Mr Bartlett yn nodi y bydd 'unrhyw gostau teithio, milltiroedd, cynhaliaeth a ysgwyddir gan Glerc y Cyngor ac a gymeradwywyd gan y Cyngor yn cael eu talu ar y gyfradd Y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol (NJC) y cytunwyd arni a osodwyd ar y pryd'.

104 Mae'n ofynnol i'r holl daliadau a wneir gan y Cyngor gael eu cymeradwyo gan gyfarfod o'r Cyngor. Adolygodd fy archwilwyr gofnodion y Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Tachwedd 2013 a 31 Hydref 2014. Mae'r cofnodion yn cofnodi bod y Cyngor bob mis wedi cymeradwyo taliad i Mr Bartlett y cyfeirir ato fel 'Cyflog Graham Bartlett'. Nid yw'r cofnodion yn cofnodi bod Mr Bartlett wedi cael unrhyw daliad am oramser neu ad-daliadau treuliau. Mr Bartlett oedd yn cymryd cofnodion y Cyngor.

105 Ym mis Awst 2015, rhoddodd olynydd Mr Bartlett fel Clerc y Cyngor lyfrau cyfrif i'm harchwilwyr yr oedd wedi'u canfod yng nghofnodion y Cyngor. Rhoddodd y llyfrau hyn fanylion y taliadau misol a wnaed i Mr Bartlett ers 2004. Am bob mis ond tri, ychwanegwyd symiau ychwanegol at gyflog sylfaenol Mr Bartlett gyda'r nodyn 'MLG & OT'. Mae Mr Bartlett wedi cadarnhau i'm harchwilwyr mai talfyriad o 'mileage and overtime' oedd hwn. Cyfanswm taliadau cyflog Mr Bartlett, taliadau goramser a thaliadau milltiroedd gyda'i gilydd oedd y swm y gofynnwyd i'r Cyngor ei gymeradwyo fel 'Cyflog Graham Bartlett'. Mae Mr Bartlett wedi cadarnhau nad oedd yn llenwi ffurflenni hawlio treuliau, nac yn cadw cofnod o'r goramser a weithiwyd y talwyd amdano nac yn ceisio awdurdodiad penodol ar gyfer talu goramser neu dreuliau. Dywedodd wrth fy archwilwyr ei fod yn gweithio llawer mwy o oriau na'i oriau dan gontract ac nad oedd yn hawlio'r holl dreuliau a ysgwyddwyd ganddo.

106 Nid yw'n ymddangos bod y symiau a dalwyd i Mr Bartlett yn seiliedig ar oramser gwirioneddol a weithiwyd neu dreuliau. Roedd y treuliau goramser a milltiroedd

misol am 10 o'r 12 mis o fis Tachwedd 2013 i fis Hydref 2014 rhwng £48 a £49 fel y dangosir yn **Arddangosyn 3**.

**Arddangosyn 3 – Taliadau 'Goramser a Milltiroedd' a gafodd Mr Bartlett ym misoedd cyflog Tachwedd 2013 i Hydref 2014**

| Mis Cyflog | Taliadau 'Goramser a Milltiroedd' a gafodd Mr Bartlett |
|---|---|
| Tachwedd 2013 | £48.60 |
| Rhagfyr 2013 | £48.60 |
| Ionawr 2014 | £48.60 |
| Chwefror 2014 | £48.60 |
| Mawrth 2014 | £48.60 |
| Ebrill 2014 | £48.00 |
| Mai 2014 | £48.97 |
| Mehefin 2014 | £48.00 |
| Gorffennaf 2014 | £48.00 |
| Awst 2014 | DIM |
| Medi 2014 | £27.00 |

| **Mis Cyflog** | **Taliadau ‘Goramser a Milltiroedd’ a gafodd Mr Bartlett** |
|---|---|
| Hydref 2014 | £48.00 |
| **Cyfanswm** | **£510.97** |

Ffynhonnell: Cofnodion cyflogres y Cyngor

107 Estynnodd fy archwilwyr eu harchwiliad o lyfrau cyfrif y gyflogres i gwmpasu'r cyfnod rhwng Ionawr 2005 a Hydref 2014. Canfuwyd bod Mr Bartlett, yn ystod y cyfnod hwn, wedi cael taliadau ‘MLG &OT’ a oedd yn cyfateb i £4,806.28 na chawsant eu hadrodd yn benodol i'r Cyngor nac eu hawdurdodi ganddo.

108 Yn ystod y blynyddoedd ariannol 2013-14 a 2014-15, contractiodd y Cyngor gwmni cyfrifyddu lleol i ddarparu gwasanaethau cyflogres i'r Cyngor. O dan y trefniant hwn, rhoddodd Mr Bartlett wybod i'r cyfrifwyr beth oedd y cyflog gros i'w dalu iddo'i hun ac i Ysgrifenyddes y Cyngor. Defnyddiodd y cyfrifwyr yr wybodaeth hon i gyfrifo unrhyw ddidyniadau statudol a oedd yn ddyledus, cynhyrchu slipiau cyflog, a rhoi gwybod i Mr Bartlett am y swm a oedd yn ddyledus iddo, ysgrifennydd y Cyngor a CThEM. Yna, byddai Mr Bartlett yn trefnu i daliadau gael eu gwneud drwy siec a'u hawdurdodi gan aelodau'r Cyngor.

109 Ychwanegodd Mr Bartlett, ar ôl cael gwybod gan gyfrifwyr beth oedd y swm a oedd yn ddyledus iddo, oramser a milltiroedd i'r swm hwnnw bob mis fel y gwelir yn **Arddangosyn 2**. O ganlyniad, talwyd mwy na'r symiau a bennwyd gan y cyfrifwyr i Mr Bartlett. Fel y nodir ym **mharagraff 102**, taliadau trethadwy yw taliadau goramser. Ni wnaeth Mr Bartlett hysbysu cyfrifwyr y Cyngor ei fod yn cael taliadau o'r fath a thalwyd y symiau iddo heb ddidynnu treth incwm. Hefyd, gan nad oedd Mr Bartlett yn cadw cofnodion i wahaniaethu rhwng goramser ac ad-daliadau treuliau, a gan na chadwodd unrhyw gofnod o dreuliau a ysgwyddwyd ganddo i gefnogi'r taliadau a gafodd, mae'n debygol bod yr holl daliadau a gafodd am oramser a threuliau yn drethadwy.

110 Mae Mr Bartlett wedi dweud wrthyf y cafodd y Cyngor, yn ei farn ef, ‘fargen dda iawn’ oherwydd:

- gweithiodd oriau lawer o oramser na geisiodd tâl gan y Cyngor amdanynt; a
- hawliodd 45c y filltir a deithiwyd, er y gallai fod wedi hawlio cyfradd milltiroedd uwch yn unol â'i gontract cyflogaeth **(paragraff 103**).

111 Nid wyf yn cytuno â Mr Bartlett am y rhesymau canlynol.

- nid oedd y symiau a dalwyd gan Mr Bartlett iddo ei hun yn seiliedig ar dreuliau gwirioneddol a ysgwyddwyd a/neu oramser a weithiwyd.

- ni ddatgelwyd y taliadau mewn cysylltiad â goramser a threuliau yn briodol i'r Cyngor ac ni chawsant eu cymeradwyo gan aelodau'r Cyngor. Felly, nid oedd gan Mr Bartlett hawl i gael y taliadau hyn.
- er bod gan Mr Bartlett hawl gontractiol i gael tâl am filltiroedd a deithiwyd ar ran y Cyngor ar gyfraddau cenedlaethol, ni wnaeth unrhyw hawliadau o'r fath. Ychwanegodd Mr Bartlett atchwanegiad digymorth at ei dâl am oramser a threuliau yn ddiarwybod i aelodau'r Cyngor a heb eu cymeradwyaeth.
- Methodd Mr Bartlett â sicrhau bod y taliadau goramser a wnaeth iddo'i hun wedi'u trethu'n briodol.

## Methodd y Cyngor â chymeradwyo'n ffurfiol newidiadau i oriau dan gontract yr Ysgrifenyddes ac o ganlyniad cafodd yr Ysgrifenyddes daliadau cyflog yn fwy na'r swm y cytunwyd arno gan y Cyngor

112 Pennwyd tâl Ysgrifenyddes y Cyngor yn lleol gan Gyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd ac nid oedd yn seiliedig ar raddfeydd cyflog y cytunwyd arnynt yn genedlaethol. Yn 2005-06 cafodd Ysgrifenyddes y Cyngor gyflog blynyddol o £8,544 ac roedd yn ofynnol iddi weithio 22 awr yr wythnos. Rhwng 2005-06 a diwedd ei chyflogaeth ar 31 Hydref 2014, cynyddodd cyflog Ysgrifenyddes y Cyngor £8,544 y flwyddyn i £11,929 y flwyddyn fel y nodir yn **Arddangosyn 3**.

113 Nid yw cofnodion cyfarfodydd y Cyngor yn ystod y cyfnod hwn yn cofnodi y gofynnwyd i'r Cyngor awdurdodi codiadau blynyddol i gyflog Ysgrifenyddes y Cyngor. Gweinyddodd Mr Bartlett yn rhinwedd ei swydd yn Glerc y Cyngor godiad cyflog blynyddol. Am y rhan fwyaf o flynyddoedd, roedd y cynnydd blynyddol a dalwyd i Ysgrifenyddes y Cyngor yn cyfateb yn fras i'r dyfarniad cyflog cenedlaethol a gyhoeddwyd gan CGCLl/SLCC. Fodd bynnag, yn 2007-08, 2008-09 a 2009-10, cynyddodd cyflog Ysgrifenyddes y Cyngor 4.87%, 4.67% a 3.72%, o'i gymharu â chynnydd yn y graddfeydd cyflog cenedlaethol o 2.47%, 2.75% ac 1% yn y drefn honno. Fel y dangosir yn **Arddangosyn 4**, cafodd Ysgrifenyddes y Cyngor £6,505 yn fwy mewn cyflog o 2004-05 ymlaen nag y byddai wedi'i gael pe bai'r Cyngor wedi defnyddio dyfarniadau cyflog cenedlaethol CGCLl/SLCC ar gyfer y cyfnod hwn.

**Arddangosyn 4: y cynnydd yng nghyflog Ysgrifenyddes y Cyngor o 1 Ebrill 2005 i 31 Hydref 2014**

| Blwyddyn ariannol | Cyflog sylfaenol Ysgrifeny-ddes y Cyngor (£) | % y cynnydd cyflog o flwyddyn i flwyddyn | % y cynnydd blynyddol a gyhoeddwyd yng ngraddfeydd cyflog CGCLI/SLCC | Cyflog pe bai codiadau cenedlaeth-ol wedi'u defnyddio (£) | Taliad cronnol dros/(o dan) os defnyddiwyd dyfarniadau cyflog cenedlaethol (£) | Goramser a dalwyd (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2005/6 | 8,544 | | | 8,544 | | |
| 2006/7 | 8,797 | 2.96% | 2.95% | 8,796 | 1 | |
| 2007/8 | 9,226 | 4.87% | 2.47% | 9,013 | 213 | 132.05 |
| 2008/9[2] | 11,088 | 4.67% | 2.75% | 10,573 | 728 | 132.57 |
| 2009/10 | 11,680 | 3.72% | 1.00% | 10,679 | 1,729 | |
| 2010/11 | 11,708 | 0.24% | 0.00% | 10,679 | 2,758 | |
| 2011/12 | 11,708 | 0.00% | 0.00% | 10,679 | 3,787 | |

[2] Ym mis Mawrth 2008 ac Ebrill 2008, talwyd goramser i Ysgrifenyddes y Cyngor am weithio 15 awr yn ychwanegol y mis. Ym mis Mai 2008, ymgorfforwyd y swm a dalwyd fel goramser yng nghyflog sylfaenol Ysgrifenyddes y Cyngor (gweler **paragraff 113**). Mae'r golofn, 'cyflog pe bai cyfraddau cenedlaethol wedi'u defnyddio' wedi'i haddasu o 2000-09 ymlaen i adlewyrchu'r newid yn yr oriau a weithiwyd.

| Blwyddyn ariannol | Cyflog sylfaenol Ysgrifeny-ddes y Cyngor (£) | % y cynnydd cyflog o flwyddyn i flwyddyn | % y cynnydd blynyddol a gyhoeddwyd yng ngraddfeydd cyflog CGCLI/SLCC | Cyflog pe bai codiadau cenedlaeth-ol wedi'u defnyddio (£) | Taliad cronnol dros/(o dan) os defnyddiwyd dyfarniadau cyflog cenedlaethol (£) | Goramser a dalwyd (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2012/13 | 11,708 | 0.00% | 0.00% | 10,679 | 4,816 | |
| 2014/15 I (31/10/2014) | 11,929 | 0.90% | 0.00% (dyfarniad o 1% a wnaed ar ôl 31/10/14) | 10,786 | 6,505 | |

Ffynhonnell: Cofnodion cyflogres y Cyngor a graddfeydd cyflog blynyddol a gyhoeddwyd gan CGCLI/SLCC

114 Ym mis Mawrth 2008 a mis Ebrill 2008, mae cofnodion cyflogres y Cyngor yn dangos bod Ysgrifenyddes y Cyngor wedi cael £132 yn ogystal â'i chyflog sylfaenol am weithio 15 awr o oramser. O fis Mai 2008 ymlaen, ymgorfforwyd y swm a dalwyd mewn goramser yng nghyflog sylfaenol Ysgrifenyddes y Cyngor, gan arwain at gynnydd o 17.2% yn ei chyflog sylfaenol. Ni wnaed unrhyw newidiadau i oriau gwaith cytundebol Ysgrifenyddes y Cyngor ac nid yw cofnodion y Cyngor yn cofnodi bod y Cyngor wedi cymeradwyo'r newid hwn nac wedi cael gwybod amdano.

115 Dywedodd Mr Bartlett wrth fy archwilwyr ei fod, ar adeg y newid hwn, yn absennol o'r Cyngor oherwydd salwch ac felly nad yw'n ymwybodol o sut y gwnaed y penderfyniad i ymgorffori goramser Ysgrifenyddes y Cyngor mewn cyflog sylfaenol. Dywedodd Ysgrifennydd y Cyngor wrth fy archwilwyr y gofynnwyd iddi fynychu Cyfarfodydd Pwyllgor y Cyngor gyda'r nos a chymryd cofnodion yn ystod mis Mawrth 2008 a mis Ebrill 2008 tra bod y Clerc yn absennol oherwydd salwch. Felly, cafodd 15 awr y mis o oramser i gyflawni'r dyletswyddau ychwanegol hyn. Dywedodd hefyd wrth fy archwilwyr y gofynnwyd iddi barhau i fynychu cyfarfodydd gyda'r nos o'r Cyngor a chymryd cofnodion o'r cyfarfodydd hyn ar ôl i'r Clerc ddychwelyd, ac felly gwnaed y cynnydd o 15 awr y mis yn un parhaol.

116 Nid oes gennyf reswm i amau'r esboniad a roddwyd gan gyn Ysgrifenyddes y Cyngor a nodaf nad oedd ganddi ran yn y gwaith o brosesu taliadau'r gyflogres.

